



**Academi Genedlaethol ar gyfer  
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru  
National Academy for  
Educational Leadership Wales**

**Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod y Bwrdd 7 Tachwedd 2019**

**Yn bresennol**

Sue Davies (SD) (Cadeirydd)  
Huw Foster Evans (HFE) (Prif Weithredwr)  
Claire Williams (CW)  
Mike James (MJ)  
Martin Price (MP) (Trwy gyswllt fideo)  
Davina Payne (DP)  
Michaela Renkes (MR) (Sylwedydd Llywodraeth Cymru)  
John Graystone (JG)  
Rosemary Jones OBE (RJ)  
Paul Marshall (PM)  
Olivia Stemmer (OS) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, gwrthdaro buddiannau, cofnodion a champau gweithredu'r cyfarfod diwethaf a chadarnhau'r cofnodion i'w cyhoeddi.

Agorwyd y cyfarfod gan SD, ac aeth ati i groesawu pawb, diolch i'r rhai a fynychodd gynhadledd yr Academi Arweinyddiaeth a llongyfarch yr Academi Arweinyddiaeth am gynnal cynhadledd lwyddiannus gan ddiolch i bawb a helpodd i'w threfnu.

Nid oedd unrhyw fuddiannau'n gwrthdaro.

**Cytunodd y grŵp fod y cofnodion yn gywir ond nodwyd y dylai'r cofnodion a'r agenda fod yn ddwyieithog ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Cytunwyd y dylid cyhoeddi'r cofnodion ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth.**

2. Cadarnhau nodyn o gyfarfod Arbennig y bwrdd.

**Cytunodd y grŵp i nodi bod y ddogfen hon yn gyfrinachol.**

3. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Diolchodd HFE i aelodau'r bwrdd am eu gwaith ychwanegol yn ddiweddar i helpu i gefnogi'r Academi Arweinyddiaeth. Hefyd, diolchodd HFE i bawb a fynychodd gynhadledd yr Academi Arweinyddiaeth.

Diolchodd HFE i Kirsty Payne, y Rheolwr Busnes, am ei gwaith ariannol ychwanegol ac am ddylunio a diweddarau gwefan yr Academi Arweinyddiaeth.

Siaradodd HFE am y cynadleddau amrywiol y mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys y Sioe Addysg Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Gofynnodd MR am waith ymchwil Chris Lewis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, yn ymwneud ag arweinyddiaeth a sut y mae'n gorgyffwrdd â gwaith ymchwil gan y Prifysgolion. Eglurodd HFE fod Chris Lewis yn ymchwilio i Arweinyddiaeth yn benodol yn hytrach na dysgu proffesiynol.

**Gofynnodd RJ sut y bydd cynllun gweithredol Chris Lewis yn cael ei ariannu, a chytunodd HFE i ddosbarthu papurau cyllideb.**

Gofynnodd JG am rôl y Grŵp Rhanddeiliaid a'r Grŵp Undeb, a'u dylanwad ar yr Academi Arweinyddiaeth. Eglurodd HFE fod y Grŵp Rhanddeiliaid a'r Grŵp Undeb yn helpu i ddatblygu'r cynlluniau gweithredol trwy herio ein gwaith. **Cytunodd HFE i rannu cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid a'r Grŵp Undeb gyda'r bwrdd.**

Mynegodd RJ bryderon nad oes gan y Consortïwm Tair Gwlad berthynas ag unrhyw sectorau yn Lloegr. Eglurodd MR nad yw'r dull gweithredu cyson ym maes arweinyddiaeth sy'n amlwg yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon ar waith yn Lloegr. Eglurodd HFE fod yr Academi Arweinyddiaeth wedi ceisio datblygu cysylltiadau yn Lloegr ond ei bod yn anodd dod o hyd i sefydliadau tebyg. Cyfeiriodd JG at y posibilrwydd o ystyried y cymunedau lleol bach er mwyn trafod arweinyddiaeth â nhw. **Cytunodd HFE i gyflwyno'r awgrymiadau hyn i'r Consortïwm Tair Gwlad er mwyn trafod ei berthynas â Lloegr. Cytunodd aelodau'r bwrdd i gysylltu â'u rhwydweithiau i weld a fyddai rhywun yn hoffi ymwneud â'r consortïwm.**

Dywedodd CW ei bod wedi derbyn llawer o gwestiynau yn ystod Cynhadledd yr Academi Arweinyddiaeth ynglŷn â sut y cafodd y comisiwn ei greu a phwy sydd wedi'i wneud yn flaenoriaeth. Eglurodd HFE fod maes cyffredinol y comisiwn yn deillio o'r llythyr cylch gwaith a bod y manylion wedi'u pennu gan y Cymdeithion.

Diolchodd SD i HFE am ei waith dros yr Academi Arweinyddiaeth.

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (gan gynnwys y gofrestr risgiau)

Dechreuodd PM y drafodaeth am y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Cytunodd y bwrdd y gall y pwyllgor greu polisi gwrthdaro buddiannau.** Mae RJ wedi dosbarthu'r polisi drafft a fydd yn cael ei drafod yn ystod cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Nododd PM fod angen i'r polisi salwch gynnwys adran ar gynllunio ar gyfer olyniaeth gan fod y sefydliad yn fach. Bydd angen llunio polisi i sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen yn dilyn salwch hirdymor neu ymddiswyddiad uniongyrchol. **Cytunodd y bwrdd y dylai penaethiaid y ddau is-bwyllgor drafod y mater hwn.**

Dywedodd PM fod llythyr wedi'i rannu er mwyn dod o hyd i archwilydd mewnol, a bod dau sefydliad wedi mynegi diddordeb hyd yn hyn. **Mae'r pwyllgor wedi cytuno**

**i gyfarfod eto er mwyn penderfynu sut i symud ymlaen â'r ceisiadau. Cytunodd y bwrdd i ddirprwyo'r gwaith o benodi archwilydd mewnol i'r is-bwyllgor.**

Dywedodd PM fod y pwyllgor wedi ystyried yr holl risgiau a'u bod wedi'u trefnu ar sail eu pwysigrwydd. Bydd risgiau lefel uchel yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor yn y dyfodol, a'u cyflwyno i'r bwrdd er mwyn eu trafod ymhellach. **Byddai'r grŵp yn hoffi llunio ail gofrestr risgiau ar gyfer risgiau gweithredol. Eglurodd MR fod adolygiad safonol cyfnodol o bob corff cyhoeddus yn cael ei gynnal ac y gallai'r bwrdd ychwanegu hyn at y Gofrestr Risgiau. Bydd MR yn hysbysu'r bwrdd pan fydd angen cynnal yr adolygiad.**

5. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/AD (gan gynnwys gwybodaeth am benodi Prif Weithredwr)

Diolchodd SD i'r pwyllgor am y gwahoddiad iddi hi a HFE fynychu'r cyfarfod ar 5 Tachwedd 2019.

Eglurodd JG mai diben y cyfarfod oedd cynllunio i benodi Prif Swyddog Gweithredol newydd.

**Aeth y bwrdd ati i drafod a ddylid cyfeirio at yr is-grŵp Cyllid/AD fel pwyllgor, a chytunodd y bwrdd i gyflwyno'r newid hwn.**

Eglurodd y pwyllgor y broses ddethol y mae am ei chyflwyno:

- **Mae angen diwygio tudalen 7 o ddisgrifiad y swydd a manyleb y person i ddweud Dr Sue Davies Cadeirydd y Bwrdd**
- **Byddai'r grŵp yn hoffi ehangu'r talfyriad OECD.**

Trafododd y grŵp a yw'r meini prawf sy'n nodi bod y Gymraeg yn hanfodol yn rhy gyfyngol ac y gallent achosi problemau o safbwynt nifer y ceisiadau. Eglurodd DP y gallent wynebu cwestiynau gan y cyfryngau os yw'r swydd hon yn cael ei hysbysebu heb y meini prawf bod y Gymraeg yn hanfodol. Ym marn RJ, mae angen bod yn fwy eglur ynglŷn â'r gofyniad bod y Gymraeg yn hanfodol a lefel y Gymraeg sydd ei hangen. Eglurodd MR y gallai rhai pobl siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ddigon cyfforddus o bosibl i'w disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. Ym marn CW, os yw unigolyn yn fodlon dysgu Cymraeg, neu eisoes yn dysgu'r iaith, dylid ei ystyried ar gyfer y swydd.

**Yn dilyn pleidlais, cytunodd y grŵp i hysbysebu'r swydd gyda meini prawf bod y Gymraeg yn 'ddymunol'.**

**Cytunodd y grŵp ar y geiriad canlynol ar gyfer yr adran ar dudalen 3. "Mae sgiliau Cymraeg, h.y. y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg, neu barodrwydd i ddysgu Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon."**

**Cytunodd y grŵp i gynnwys y ddolen i'r llythyr cylch gwaith yn ymwneud â dogfennau'r swydd.**

Cytunodd y grŵp i'r newidiadau canlynol o dan yr adran 'BYDD Y CANLYNOL YN BWYSIG HEFYD':

- **Newid 'pwysig' i 'dymunol'**
- **Newid pwynt bwled 2 'Dealltwriaeth fanwl o fodolau sicrhau ansawdd' a symud 'Profiad o gynllunio a chyflwyno darpariaeth arweinyddiaeth' i'r adran Sgiliau Hanfodol ar dudalen 3**
- **Symud pwynt bwled 3 i'r adran Sgiliau Hanfodol ar dudalen 3**  
**Ychwanegu 'Cymraeg' o dan 'Mae'r canlynol yn bwysig hefyd' er mwyn creu'r frawddeg 'Mae sgiliau Cymraeg, h.y. y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg, neu baroddrwydd i ddysgu Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.'**

Cytunodd RJ a JG i gydweithio ar y pecyn swydd er mwyn sicrhau ei fod yn barod i'w gyfieithu ddydd Llun.

**Cytunodd y grŵp i ddiwygio adran 4 yn y ffurflen gais i ddweud 'Beth yw lefel eich gallu yn y Gymraeg? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.'**

Awgrymodd RJ y dylai diwrnod 1 gael ei neilltuo ar gyfer cwestiynau a chyflwyniad, ac yna adborth gan staff a Chymdeithion. Cynhelir cyfweiliad ffurfiol ar ddiwrnod 2.

Aeth y grŵp ati i drafod aelodau'r bwrdd cyfweld, a chytunwyd bod 6 o bobl yn ormod. Eglurodd MR fod pob panel cyfweld Llywodraeth Cymru yn cynnwys dau aelod mewnol ac un aelod allanol. **Cytunodd y grŵp y dylai SD, RJ, JG ac un aelod allanol gynnal y cyfweiliadau, ac y bydd o leiaf 2 aelod ar y pwyllgor apelio.**

Trafododd y grŵp brisiau'r cwmnïau recriwtio gwahanol a pha gwmni a fyddai'n addas i ni. Cytunwyd eisoes y bydd Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyhoeddus a Chonsortia Rhanbarthol yn helpu i lunio ein hysbyseb.

**Cytunodd y grŵp i ddefnyddio pecyn Arian hysbysebu Times Education, y Western Mail a y post lleol.**

**Hefyd, awgrymodd y grŵp y gellid defnyddio LinkedIn ar gyfer hysbysebu. Cytunwyd i archwilio i'r dewis hwn ymhellach.**

**Cytunodd y grŵp y dylid gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus am eirda ar ôl y cyfweiliad cyntaf, a gofyn a ydynt yn fodlon i ni gysylltu â'u canolwyr. Cytunodd y grŵp y dylid nodi yn y ffurflen gais bod angen i ymgeiswyr enwi dau ganolwr proffesiynol, gan nodi eu cyfeiriadau a'u manylion cyswllt.**

Cytunodd aelodau'r grŵp eu bod yn hapus â'r cyflog. Bydd angen i ymgeiswyr ddadlau eu hachos os ydynt yn credu y dylent ennill mwy na'r cyflog sylfaenol. **Dileu'r gair 'tua' o 'Ystod gyflog.'** Bydd saith cam i'r raddfa gyflog yn amodol ar adolygiad blynyddol llwyddiannus.

Trafododd y grŵp yr hysbyseb ar gyfer Swyddog Cyfathrebu. Trafododd y grŵp y posibilrwydd bod angen mwy tymor byr ar gyfer y swydd hon. **Cytunodd y bwrdd i hysbysebu'r swydd hon ar sail yr un llinell amser ag y defnyddir ar gyfer gweithwyr cyflogedig presennol yr Academi Arweinyddiaeth, gan nodi y bydd y swydd yn cael ei hadolygu gyda'r contractau eraill ar ôl penodi'r Prif Swyddog Gweithredol.**

Dywedodd DP y bydd angen i'r bwrdd drafod strategaeth gyfathrebu'r Academi Arweinyddiaeth. Hefyd, roedd am nodi yn yr hysbyseb y bydd angen i ymgeiswyr wybod am y diwydiant teledu a darlledu yng Nghymru. **Cytunodd DP i edrych ar yr hysbyseb a gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn ei barn hi ac adrodd yn ôl i'r bwrdd. Byddai DP yn hoffi cymryd rhan yn y broses gyfweld, a chytunodd y bwrdd y byddai hyn yn ddefnyddiol. Mae'r grŵp yn hapus i'r hysbyseb gael ei gyhoeddi yn dilyn newidiadau DP. Hefyd, cytunwyd i hysbysu Llywodraeth Cymru pan fydd yr hysbyseb yn barod.**

6. Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol a chau'r cyfarfod

Cytunodd y grŵp i gynnal y cyfarfod nesaf ar 16 Ionawr yn swyddfa'r Academi Arweinyddiaeth.

Gofynnodd SD i'r aelodau anfon eitemau agenda ar gyfer y dyfodol at Kirsty Payne.

Bydd angen trafod y Strategaeth Gyfathrebu yn y cyfarfod nesaf.

Byddai SD yn hoffi trafod a fyddai aelodau'r Bwrdd ar gael am awr arall ar ôl cyfarfodydd i dderbyn cyflwyniadau mewnol neu allanol.

Byddai'r grŵp yn hoffi trafod canlyniadau PISA yn y cyfarfod nesaf ynghyd ag ymateb yr Academi Arweinyddiaeth.

Diolchodd SD i bawb am fynychu'r cyfarfod cyn cau'r cyfarfod am 13:20.

### Log Camau Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
12	Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i ystyried datblygu rhai hanesion achos	HFE	Medi 2019	Yn parhau
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau bwrdd yn y dyfodol	TW	Medi 2019	
84	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	
101	Nodi risgiau allweddol i'w rhannu â Llywodraeth Cymru	Pawb	Tachwedd 2019	
105	Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno gwaith ei Doethuriaeth hyd yn	KP	Mawrth 2020	

	hyn			
106	Pob agenda a'r holl gofnodion yn y dyfodol i fod yn ddwyieithog	KP	Ionawr 2020	Yn parhau
107	Cyhoeddi cofnodion y bwrdd ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth	KP	Ionawr 2020	Yn parhau
108	Sicrhau bod cadarnhad y nodyn o gyfarfod arbennig y bwrdd yn gyfrinachol	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
109	Dosbarthu Cyllideb	HFE	Ionawr 2020	Cwblhawyd
110	Dosbarthu cofnodion rhanddeiliaid a chofnodion undeb	KP	Ionawr 2020	Cwblhawyd
111	Astudio rhwydweithio i ganfod cysylltiadau posibl yn Lloegr	Pawb	Ionawr 2020	
112	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i greu polisi gwrthdaro buddiannau	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Ionawr 2020	Cwblhawyd
113	Penaethiaid y ddau is-bwyllgor i gyfarfod a thrafod strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth	JG a PM	Ionawr 2020	
114	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i benodi archwilydd mewnol	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Rhagfyr 2019	Cwblhawyd
115	Creu ail gofrestr risgiau ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Ionawr 2020	
116	Ychwanegu risg ar gyfer adolygiad y cyrff cyhoeddus	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Ionawr 2020	Cwblhawyd
118	Newid dogfennau'r swydd yn unol â'r hyn a nodwyd yn y cofnodion	OS, JG, RJ	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
119	Hysbysebu yn Times Education gyda'r pecyn arian, yn y Western Mail a'r Daily Post lleol	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
120	Ystyried hysbysebu ar LinkedIn	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
121	Adolygu disgrifiad swydd Swyddog Cyfathrebu	DP	Ionawr 2020	Cwblhawyd
122	Hysbysu Llywodraeth Cymru cyn hysbysebu swydd Swyddog Cyfathrebu	KP	Rhagfyr 2019	Cwblhawyd

**D.S. Mae rhifau coll wedi'u cwblhau**